YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
"BABOUSKA."
YMWELIAD YR ANGEL.
URDD Y BENYWOD.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxvi

Ionawr, 1936

Rhif 1

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys iimrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVI. IONAWR, 1936. RHIF 1

" DOS I'TH YSTAFELL—."

" YN fore, Arglwydd, y cyfeiriaf fy ngweddi atat, ac yr edrychaf i fyny."—*Salm v : 3.*

* * *

MAE rhai o'n meddyliau yn weddiau. Daw munudau pan y mae'r enaid ar ei gliniau, gan nad beth fyddo ystum y corff.—VICTOR HUGO.

* * *

DYMUNWN i'r rhai a'm hadwaenant orau i ddweyd am danaf i mi dynnu ysgallyn a phlannu blodeuyn ble bynnag y tybiwn y gwnai blodeuyn dyfu.—ABRAHAM LINCOLN.

* * *

NI ellir rhoddi mwgwd ar y meddwl goleuedig. Ni cheuir ef yn nhywyllwch y carchar nes y meddylia mai mur ei gell ydyw terfyn y bydysawd ac mai hyd ei gadwyn ydyw pen pellaf pob gwybodaeth. —LONGFELLOW.

* * *

CYHYD ag yr ydym yn caru yr ydym yn gwasanaethu. Cyhyd ag y cerir ni gan eraill bron y dywedwn ein bod yn anhepgorol ; nid oes undyn yn ddi-ddefnydd tra y byddo ganddo gyfaill.—R. L STEVENSON.

* * *

HAWDD ydyw byw yn y byd a chydymffurfio â syniadau y byd. Hawdd mewn unigedd ydyw byw yn unol a'n hargyhoeddiadau ein hunain ; y Dyn Mawr ydyw dyn fedr gadw gafael ar annibyniaeth unigedd yng nghanol y dyrfa.—EMERSON.

* * *

ARGLWYDD ein Duw yr hwn wyt o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, dyro i ni o'th ras ar ddechreu y flwyddyn hon, fel y gallwn dderbyn ei dyledswyddau a chyflawni ei gwaith, fel y gallwn groesawu ei thrugareddau a chyfarfod ei threialon oll, fel y gallwn fyned yn y blaen drwy bopeth sydd ganddi ar ein cyfer gyda gwroldeb siriol a chyda phenderfyniad di-wyro. Na ad i ni Arglwydd gael ein gwahanu oddiwrthyt Ti, mewn gofid na llawenydd, nac ychwaith gan unrhyw bechod na gwendid o'n heiddo ni. Cadw ein ffydd yn gryf yn dy gariad tragwyddol Di. Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

Blwyddyn Newydd Dda Yr Ymofynnydd.

Gallaf o leiaf *ddymuno* Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd, gan nad beth feddyliaf am y rhagolygon. Dyna ddechreu ar nodyn amheus, ond meddwl yr oeddwn yn bennaf am ragolygon yr Ymofynnydd. Nid wyf yn hoff o rwgnach nac o ymosod, ac nid oes gennyf yr un pleser mewn grwgnach yn awr, ond yr wyf am ddweyd yn blaen, a chredaf fod gennyf bob rheswm dros wneyd hynny,—nad yw misolyn Undodaidd Cymru yn deilwng o'r enwad, nac yn deilwng o'i orffennol ei hun. Y rheswm amlwg am nad yw yr hyn ddylai fod ydyw nad oes gan fawr o neb, hyd y gellir gweled, yr un diddordeb yn y gwaith o geisio llanw ei dudalennau. Yr wyf yn wir ddiolchgar i gynifer ag sydd wedi anfon o dro i dro, ond nid oes angen ond taflu golwg frysiog dros rifynnau y flwyddyn aeth heibio er gweled mai teneu dros ben fu y cyfraniadau. Mae hyn yn golygu mai'r Golygydd orfu geisio llanw cyfran helaeth o dudalennau un rhifyn ar ôl y llall. Nid yw'r ffaith fod hyn yn dipyn o faich ar un dyn mor bwysig. Mae'n weddol hawdd i lanw tua deuddeg tudalen y mis *rywsut*. Ond beth sydd wedi dyfod drosom ein bod yn fodlon i'r unig fisolyn sydd gennym i gael ei lanw *rywsut*? Yn wyneb pethau fel ag y maent, nid annheg ydyw gofyn,—*Ai nid oes gan ein gweinidogion a'n lleygwyr Cymreig ddim i'w ddweyd*? Amhosibl ydyw credu hyn.

Ni ddywedaf ragor, ond dyma awgrym ddigon rhesymol. Addawed pob gweinidog ddwy erthygl o bedair tudalen yr un yn ystod 1936. Aiff hynny ym mhell i setlo'r broblem. Cymeraf yn ganiataol y gwneir yr addewidion hyn, ac anfonaf ar fyr dro i ddweyd pa bryd y byddaf yn disgwyl y cyfraniadau. Nid wyf am awgrymu testunau. Yn sicr ni fydd yn ormod o dreth ar neb i feddwl am ddau destun mewn blwyddyn.

Rhaid i minnau wneyd ymddiheurad am fod Yr Ymofynnydd droion wedi methu ymddangos ar Sul cyntaf y mis, ac yn arbennig am ei fod mor ddiweddar y tro hwn. Amser ffwdanus a chyffrous ydyw amser mudo, ac annodd ydyw cael meddyliau na defnyddiau at ei gilydd. Addawaf ddiwygio yn hyn o hyn allan. Hawddach fydd diwygio o beidio cael deuddeg tudalen wâg yn fy wynebu a'r argraffwyr eisioes yn disgwyl. Ac yn sicr ni fu argraffwyr mwy amyneddgar a hawddgar mewn byd a'r bobl sydd yn gorfod ymgodymu â'm hysgraflen afler i ar y funud ddiweddaf bob mis. Gyda llaw, bydded i'n gohebwyr nodi y newid cyfeiriad ar ail dudalen yr amlen.

Y Dyn Cyffredin a Chwrs Hanes.

" Mae gwareiddiad yn myned yn ei flaen yn nhiriogaethau di-rif mannau cudd dynoliaeth " (" Civilisation goes forward in the countless realms of human privacy "). Dyna frawddeg dynnodd fy sylw o ddarllen o honof nifer o ysgrifau ar wersi " Blwyddyn Newydd ". Mae'n werth sylwi arni : mae yn pwysleisio dylanwad enfawr y dyn cyffredin a di-nôd ar gwrs hanes. O geisio ohonom ddarganfod beth fu cyfraniad 1935 i gynnydd neu ddirywiad gwareiddiad, arweinir ni yn gyntaf yn naturiol i ail ddarllen am ddigwyddiadau " mawr " y flwyddyn. Yn wir bu 1935 yn gyfoethog mewn digwyddiadau pwysig, yn enwedig felly yn nhiriogaeth gwleidyddiaeth genedlaethol a rhwng-genedlaethol. Croniclid y digwyddiadau hyn mewn llythyrau breision ar wyneb-ddalen y papur newydd. Ond anaml iawn y caiff y dyn cyffredin lythyren fras i groniclo ei helyntion ef, heb iddo ladd rhywun, neu enill deng mil mewn loteri, neu o bosibl gael ychwanegiad o bedwar i'w deulu ar unwaith. Ond er y cyfan, cyffredin yn wir yw ei helynt, nid oes dim yn ddiddorol, yn *sensational* mewn unpeth a wna, ni chlywir ei lais dros yr awyr,—mae popeth a ddywed ac a wna yn gyffredin. Ac eto ar waethaf gormes aml i ddictator, ac haerllugrwydd y gwleidyddwyr, ar waethaf ceisio gwrthod yr hawl iddo i feddwl bron mewn llawer gwlad, efe yn y diwedd wnaiff benderfynu tynged gwareiddiad. Mewn gwlad gymharol rydd fel ein heiddo ni gall fynegu ei ewyllys yn amlach ac yn fwy effeithiol, fel y gwnaeth ond ychydig o wythnosau yn ôl gan newid o bosibl gwrs hanes yn Ewrop am genedlaethau i ddod. Mewn gwledydd lle nad oes iddo gymaint o ryddid heddyw, ni chlywn gymaint amdano, ond ryw ddydd, a hynny efallai yn bur fuan, daw i'w eiddo ei hun lle y sengir arno heddyw, ac ni fydd yn aros ond llwch a lludw y systemau geisiodd ei falu ef.

Dyfodol Crefydd a Moderniaeth.

O edrych i'r dyfodol, beth am grefydd ? Ni chlywyd ar ddiwedd blwyddyn fawr am *gynnydd* crefydd, yn yr ystyr fod yr eglwysi wedi cynyddu mewn rhif a nerth. Mae'n debyg mai i'r cyfeiriad arall y rhed y dŵr ar y mwyaf. Gellir dyfalu am ddyfodol yr eglwysi o lawer o wahanol safbwyntiau.

Efallai mai'r elfen bwysicaf raid gymeryd i ystyriaeth pan yn ystyried dyfodol crefydd ym Mhrydain ydyw y mudiad Modernaidd o fewn yr eglwys sefydledig. Hwyrach nad yw hyn mor amlwg i bawb am fod y mudiad yma yn bwysig yn bennaf mewn cysylltiad âg agwedd feddyliol crefydd. Beth bynnag am hynny, diddorol ydyw darllen yr hyn ddywedwyd yn ddiweddar gan

Dr. W. R. Matthews, Deon Sant Paul. "Mae Moderniaeth," meddai, "yn blanhigyn mor iach a chryf, fel pe y torrid pob cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, gan amddifadu yr Eglwys felly o holl urddas y cysylltiad a'i holl waddol, byddai i'r Eglwyswr modern barhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithas".

Mae y Deon yn sicr o fod yn iawn, ac mae'n debyg hefyd mai cwestiwn o amser yn unig ydyw'r Datgysylltiad y mae yn sôn am dano. Efallai mai mudiad yr Eglwyswyr Modern ydyw'r pwysicaf eisioes ym mywyd crefyddol y wlad.

Mae yna fudiadau eraill o bosibl yn fwy gwybyddus i'r dyrfa, ac yn fwy poblogaidd, megis ysbrydegaeth, a Mudiad Grwp Rhydychen, ond ni all fod yr un amheuaeth nad pethau dros amser ydyw llawer o'r mudiadau heddyw sydd yn apelio yn fwy at reddfau mwy plentynaidd a chyntefig yng nghyfansoddiad dyn na'i reswm na'i gydwybod oleuedig. Mae llawer o debygolrwydd rhwng y mudiadau hyn ac amryw o fudiadau politicaidd ar hyd y byd, ac mae pob mudiad o'r fath yn cynnwys o'i fewn hadau ei ddinystr ei hun.

Ni fyddai'n syndod pe mai i rhyw fath o gyfundeb o fudiadau rhyddfrydig y perthyn y dyfodol ym myd crefydd yr eglwysi. Heddyw, nid oes un mudiad rhyddfrydig ym myd crefydd yn ddigon cryf i fod yn wir ddylanwadol ar ei ben ei hun. Gall amgylchiadau eu dwyn at eu gilydd, a dyna hyd y gwelir y gobaith gorau am y dyfodol. O fethu o'r mudiadau rhyddfrydig yn wyneb gelyniaeth pobl awdurdod a thraddodiad, mae'r eglwysi yn debyg o golli hynny o ddylanwad sydd ganddynt yn bresennol. Cyfrifir hwynt fel llochesau diweddaf ofergoeliaeth ac anwybodaeth.

Ond purion ydyw rhoddi yr ochr arall i'r pictiwr. Adnabyddir Dr. Fosdick drwy'r byd fel un o bregethwyr galluocaf Moderniaeth Gristionogol. Bu mwy o ddyfynnu arno, ond odid nag un dyn arall yn ein cenhedlaeth. Fwy nag unwaith cyhuddwyd ef o heresi.

Yn ddiweddar bu yn glaf, ac yn absennol o'i bulpud am naw mis. Ar ôl dychwelyd, dywedodd fod yn bryd i'r eglwysi fyned ymhellach na Moderniaeth.

Gwendid pennaf Moderniaeth meddai Dr. Fosdick yn awr ydyw mai ei phrif amcan ydyw bod mewn harmoni a gwrtaith yr oes. Gall y duedd yna yn y diwedd ddod yn duedd i wneyd cyfaddawd ar egwyddorion a safonau moesol.

"Mae yn hanfodol angenrheidiol i gyfaddasu y ffydd Gristionogol i'r seryddiaeth newydd, y ddaeareg newydd, a'r fywydeg newydd. Ond o gychwyn ar hyd y ffordd yna, beth pe bai Cristiongoaeth yn cyfaddasu ei hun hefyd i wleidyddiaeth yr oes, i genedlaetholdeb yr oes, i gyfalafiaeth yr oes, hynny yw, yn cyfaddasu ei hun i gymdeithas fel ag y mae, ac i safonau moesol yr

oes ! Beth ddeuai o grefydd wedyn, heb wahaniaeth rhyngddi o gwbl â meddwl y byd ? "

Mae yn naturiol ddigon, i feddyliwr mawr, mewn tymor o wendid corfforol gael ei ddychrynnu gan rai o elfennau mwyaf anymunol a bygythiol yr oes, ac ofni rhag i grefydd fethu eu gwrthsefyll, ond anodd ydyw deall pa gysylltiad sydd rhwng y perygl â chynnydd Moderniaeth. Gellid meddwl mai'r ffordd sicraf i grefydd fedru gwrthsefyll y pethau hyn ydyw iddi wrteithio yn ei chanlynwyr yr annibyniaeth meddyliol a'r rheswm clir, a'r gydwybod oleuedig, y pethau yn unig fedrant wrthsefyll apel cenedlaetholdeb a phethau felly i ragfarn ac anwybodaeth.

Ar wahan i hyn nid oes un rheswm yn y byd paham y mae yn rhaid i foderniaeth, o gyfaddasu ei hun (fel mae yn " hanfodol angenrheidiol " iddi wneyd) i'r seryddiaeth newydd, a'r gwybodau eraill, fyned ymlaen i gyfaddasu ei hun i *system* gwleidyddol unrhyw oes.

Mae gwahaniaeth rhwng gwybodau a systemau â mudiadau gwleidyddol a chymdeithasol.

Ni fyddai yn syn gennym glywed Dr. Fosdick eto yn dweyd pethau sydd yn fwy mewn harmoni â'i fywyd o wasanaeth dirfawr i grefydd resymol, na'r pethau hyn.

Gair diweddaf ar Foderniaeth gan Dr. Bouquet yn " The Modern Churchman " : " Rhodd Duw i'w blant ydyw rheswm, ac er i gynnydd fod yn araf, ni raid ond taflu cipolwg ar hanes dyn i weled ei fod wedi teithio ymhell o'i ddechreu anifeilaidd drwy gymorth ei reswm. Os ydyw wedi dyfeisio y nwy gwenwynol, mae wedi dyfeisio y di-wifr a'r chloroform hefyd. Nid un-ochrog fu y datblygiad. Nid drwg yw'r oll.

" Bydd yn angeuol i'r Eglwys Gristionogol i roddi i fynu caru Duw â'r meddwl, ac yn sicr dyledswydd yr eglwys ydyw annog ei haelodau i gyd i wrteithio eu meddyliau.

" Nid ydyw derbyn arweiniad Duw yn esgusodi yr un o honom rhag meddwl yn galed. Nid yw Duw yn rhoddi i ni atebion parod i'n problemau. Rhaid *derbyn* datguddiad Duw, ac mae derbyn yn golygu darganfod ac yn gofyn y gallu i feddwl."

Blwyddyn Newydd Dda.

(Dr. J. T. Stocking : dyfynnwyd o'r " Public Opinion ").

" Blwyddyn newydd dda," meddai. " Nid yw'r amseroedd yn newid am i'r amser newid. Sut y gallwn fod yn ddedwydd mewn amgylchiadau fel y presennol ? "

A dywedodd ddameg wrthynt,—" Tebyg ydyw'r Flwyddyn Newydd i amaethwr a gerddai yn y maes ar hyd nos : ond daeth awr pan y cododd yr haul a gwelodd yn y maes hwnnw liwiau

gardd a guddiwyd gan y tywyllwch ". Ac eto dywedodd,—" Tebyg ydyw'r Flwyddyn Newydd i ddyn a adeiladodd, a'r tŷ wedi cwympo arno : ond daeth y funud pan y cododd ei ben o ganol yr adfeilion ac a ddywedodd ' Cymeraf o'r coed hyn ac adeiladaf eto '. A thrachefn y dywedodd ddameg,—" Tebyg ydyw'r Flwyddyn Newydd i ddyn ofnus a ddywedodd ynddo ei hun, ' Beth wnaiff y blaidd i mi ? " Ond daeth yr awr pan yr ymresymodd ac a ddywedodd,—" Mwy yw dyn na blaidd. Blwyddyn Newydd Dda."—

" Babouska."

Un o'r doethion o'r Dwyrain oedd Babouska, ac ni sonir am dano yn stori Nadolig Fathew na Luc. Dywed hen draddodiad wrthym i bedwar gŵr doeth deithio fore Nadolig i Fethlehem, ond ym mhob darlun a baentiwyd o eni Iesu, tri yn unig a welir oddiamgylch y preseb. A'r cwestiwn yw beth ddigwyddodd i'r pedwerydd ? Babouska oedd hwnnw, a dyma'r stori—stori am y " doethaf o'r Doethion ".

Ganol gaeaf ydoedd yn Rwsia, ac ar noson geni Iesu. Eisteddai Babouska o flaen y tân gan ddisgwyl i'w wledd y gwahoddedigion—plant tlawd ac amddifad y pentref. Llosgai'r hen foncyff coed yn siriol ar yr aelwyd a chwrlai'r mwg i fyny'r simdde. Lanternau gwêr a oleuai'r ystafell ; a choch a gwyrdd y coed celyn a roddai ystyr i wledd y tymor ; addurnwyd yr ystafell yn ddestlus ar gyfer yr ŵyl.

Gyda'r miri iach tyrrai y plant i'r wledd, a Babouska yn eu canol yn eu difyru. Tuallan rhuai'r gwynt yn nhywyllwch y nos, a phlygai'r coed bedw eu pennau dan bwysau gorchudd o eira.

Yn sydyn dyna gnoc ar y drws. Aeth Babouska i'w agor, a chanfu ŵr ar y trothwy—taliaidd, bonheddig ag anrhegion o aur ac arian yn ei ddwylo. Gŵr doeth yr olwg a brenhinol ei osgo.

" Tyr'd i mewn ŵr doeth," meddai Babouska. " Y mae i ti groeso." Ni wnaeth y gŵr doeth ond plygu ei ben, gan ateb mewn llais dwfn a dwys—" 'Rwyf wedi dod i'th wahodd ar bererindod. 'Rwyf yn myned i wlad bell i offrwm anrhegion i Frenin sydd wedi ei eni heno yn y Dwyrain. Dacw'i seren " meddai, gan gyfeirio at oleuni tanbaid yn yr wybren—" Ac oni chlywi di lais yn dy galon yn galw—' Gogoniant yn y Goruchaf i Dduw, Tangnefedd ar y ddaear, i ddynion ewyllys da '. Tyrd gyda mi."

" Yn wir " meddai Babouska, wedi ei swyno gan y stori. " Carwn yn fawr fynd gyda thi a chael golwg ar y brenin mawr yna y soni am dano, ond ni fedraf yn awr am fod gwledd wedi ei pharatoi

gennyf i dlodion y pentref. Ni charaf ei siomi," meddai, gan gyfeirio a'i fys at y plant y tu mewn,—" Canlynaf di y foment y bydd y wledd drosodd."

Ac yn sydyn diflanodd y gŵr dieithr i'r tywyllwch a'r eira. Dychwelodd Babouska i'w ystafell glyd—ond yn sydyn, dyna gnoc arall. Agorwyd y drws, ac wele, Babouska eilwaith yn syllu rhyngddo a'r caddug i wyneb gŵr doeth arall—yr ail ŵr doeth o'r dwyrain.

" Tyr'd i mewn i'r wledd " meddai Babouska—" mae yma ddigon a bydd gweddill o fara—tyr'd i fwynhau gwledd y tymor."

" Na " meddai'r gŵr dieithr—" Dim diolch, 'rwyf i yn myn'd i anrhegu Brenin heno â thus a myrr—Ddeui di gyda mi ? "

Rhoddodd Babouska eilwaith yr un ateb—" Deuaf yn union y bydd y wledd drosodd ".

Ac yn sydyn diflannodd yr ail ŵr doeth i'r tywyllwch a'r eira.

Cauodd Babouska unwaith eto ei ddrws, a dychwelodd i'w ystafell i fwynhau miri iach plant y pentref. Ond dyna guro'r drws y drydedd waith ac wele Babouska yn agor gan fwmian wrtho'i hun—" Pwy ar y ddaear yw hwn tybed ? "

" Nos da " meddai'r ymwelydd—" Ddeui di ŵr doeth gyda mi i wlad bell i anrhegu Brenin a anwyd heno yn y Dwyrain ? "

Gwyddai Babouska'r stori yn dda erbyn hyn, ac atebodd eto—" Deuaf yn union wedi'r wledd orffen. 'Rwyf am wneud y plant yma yn hapus a boddlon yn gyntaf oll cyn talu sylw i Frenin."

Ac yn sydyn diflanodd y trydydd gŵr doeth i dywyllwch noson y Nadolig.

O'r diwedd daeth y wledd i ben, ac wele'r plant bychain yn teithio tuag adref yn siriol a llawen—pob un gyda'i anrheg, yn canu eu diolch i Babouska.

" Dyna " meddai'r gŵr caredig—" Medraf innau yn awr fyned i weled y Brenin ". Casglodd ynghyd ei holl bresantau, llanwodd ei logellau ag aur ac arian, ac i ffwrdd ag ef ganol nos i anrhegu'r Brenin. Ond ni ddarfu iddo ddal y trydydd gŵr doeth ar y daith, oherwydd tua'r bore daeth o hyd i hen gardotyn ar y ffordd, yn flin a newynog, a rhoddodd iddo arian a bara. Yna, nid nepell o'r fan gwelodd fam a'i bron yn wiw, a'i phlentyn bychan llwyd, newynog yn eistedd wrth fon y clawdd. Toddodd calon Babouska, ac eilwaith aeth ei law i'w logell a thynodd allan anrhegion.

Cychwynodd eto ei daith, ac eto gwelodd y tlawd, y methedig a'r anghennus ar y ffordd, ac o gariad a chydymdeimlad, wele ef, fel y Samaritan Trugarog yn estyn cymorth. Ni aeth heibio i neb mewn angen. Ac wele'r gŵr caredig yn gorfod dychwelyd eilwaith i'w dŷ, ac eilwaith lanw ei logellau ag aur ac arian, a chychwyn eto tua'r dwyrain i anrhegu'r Brenin.

Ond ni aeth ym mhell. Eto gwelodd y tlawd, a'r afiach, y dolurus a'r anghenus, ac estynodd gymorth, a dychwelodd unwaith yn rhagor i'w dŷ yn waglaw.

Erbyn hyn nid oedd nag anrhegion nag arian yn ôl yn ei dŷ. 'Roedd yn awr wedi rhannu allan ei holl gyfoeth, a dychwelodd i'w dŷ ac yntau yn ŵr tlawd. Blin oedd hyn ganddo, ac meddai wrtho'i hun—" Nid wyf eto wedi gweled y Brenin, ac yn awr ofer yw i mi geisio teithio tua'r dwyrain, gan nad oes gennyf ddim i'w roddi iddo. Diau fod y trydydd gŵr doeth erbyn hyn wedi cyrhaedd y fan, ac yn awr yn addoli y Brenin—a dyma finnau, yn awr yn ŵr tlawd, yn hiraethu am fyned ar eu hôl, ac anrhegion i'r Brenin—ond yn methu—Pa beth a wnaf? "

A Babouska a fu fyw yn ei dŷ am lawer blwyddyn faith—yn dlawd a di-gysur am na ddarfu iddo weled ei Frenin. Aeth yn hen ŵr mewn amser, a rhyw ddiwrnod dwedodd wrtho'i hun—" O ! fe garwn weled y Brenin cyn marw " ! !

Ac wele hen ŵr penwyn, heb arian ac heb anrheg, heb ddim ond dymuniadau da yn ei galon, yn teithio yn araf tua'r dwyrain. Un diwrnod daeth i Balesteina, a thu allan i Jerusalem clywodd gynnwrf ofnadwy, croch-lefain a bygythion. Gofynodd pa beth oedd yn bod, i un a safai gerllaw.

Atebodd hwnnw gyda dirmyg yn ei wedd—" Bwriadwn groeshoelio Iesu, mab y Saer o Nasareth, a eilw ei hun yn Frenin yr Iddewon."

Ac meddai Babouska wrtho'i hun—" Tybed ai hwn yw yr un a chwiliaf am dano ? " Bore drannoeth daeth i gyffyrddiad â Iesu.

" Feistr da," meddai—" Ai ti yw Brenin yr Iddewon a'r gŵr da y sonir am dano ? "

" Gyfaill," meddai Iesu—" Nid Brenin mohono' i, ac nid oes neb *da* ond Duw—Dyn tlawd ydwyf fi—' Mae gan y llwynogod ffeuau, a chan adar yr awyr nythod, ond gennyf i nid oes yna le i roddi pen i lawr—ond mi a ddeuthum i wneuthur ewyllys fy Nhad sydd yn y Nefoedd—i ogoneddu Duw yn y goruchaf—i ddwyn Tangnefedd ar y Ddaear—ac i ddynion ewyllys da."

" O " meddai Babouska—" Gwn yn awr mai ti yw y Gŵr a anwyd noson y gwelwyd y Seren—Ti yw y Gŵr a anwyd noson y canai angylion yn fy nghalon—Na, nid Brenin mohonot ti—Eithr ti wyt fwy na Brenin."

Ac adroddodd i Iesu yr hanes. Dywedodd wrtho am alw tri gŵr doeth wrth ddrws ei dŷ, ac am y wledd i blant y pentref, ac am y ffwdan ar y daith, am y tlawd a'r methedig a'r anghenus ar y ffordd, ac am wario ei holl arian, a mynd yn dlawd.

" Da, was da a ffyddlon," meddai'r Iesu, o glywed ei stori, " Buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd—Canys buost ddoethach na'r *tri gwr doeth*

arall, canys yn gymaint a gwneuthur o honot i un o'r rhai bychain hyn, i mi y gwnaethost."

Dyna stori'r Nadolig eleni, ac mae Babouska eto'n fyw. Ddarllenydd, medru di wneud dy hun y *pedwerydd gwr doeth* : " Canys yn gymaint a gwneuthur o honot i un o'r rhai bychain hyn, i mi y gwnaethost."

J. Marles Thomas.

Ymweliad yr Angel.

Un noson tua amser y Nadolig, eisteddwn wrth y tân yn darllen, gyda'r drws ynghau, a'r llenni wedi eu tynnu dros y ffenestr, er mwyn cau allan frath y dwyrain-wynt rhewllyd.

Wedi darllen am ysbaid, dychmygwn glywed rhyw fiwsig melys yn hofran yn yr awel. Gwrandewais yn fwy astud, a chlywais yn glir rhyw lais tyner, melys, yn canu—

" O, deuwch angylion,
Cenwch, gorfoleddwch "—

Gwyddwn mai geneth fechan oedd yn canu, er garwed yr hin, ond oherwydd melyster y llais a dwyster y geiriau, dychmygwn weld rhyw angel gwyn yn disgyn o'r nef, ac yn galw ar ei gymdeithion i gyd-orfoleddu ag ef, am fod y Nadolig yn neshau.

Parhau wnai y canu, a chwythu wnai y gwynt. Cyn hir, syrthiodd rhyw gwsg ysgafn arnaf, ac wrth hepian, breuddwydiais. Yr oedd yr angel wedi dyfod i mewn ataf, ac eisteddai wrth fy ochr o flaen y tân. Gofynnwn iddo, " Paham y ceni ar noson mor oer ? " " O " meddai, " canaf am fod y Nadolig yn neshau, moliannaf am eni Crist yr Arglwydd i'r byd."

" Yr wyt yn gwneud aberth mawr i foli yn yr awyr agored pan mae gwynt y Dwyrain yn chwythu, a'r rhew yn duo'r wybren " meddwn innau.

" Sôn am aberth wnei," meddai yntau, " a wyt ti wedi anghofio aberth eithaf yr Iesu ar y Groes drosot ti a thros ddynolryw yn gyffredinol ? "

" O, nad ydwyf," meddwn innau, gydag euogrwydd yn pylu fy llygaid.

" Dywed wrthyf," meddai yr angel, " Pa beth ydych chwi ddaearolion yn wneud ar Ddydd y Nadolig ? "

" O ! " meddwn innau, " byddwn ni'r benywod yn gweithio'n galed trwy'r bore yn paratoi gwledd erbyn cinio, yna byddwn yn cael hamdden yn y prynhawn i ymblesera, a bydd y gwrywod yn

mynd allan i ddifyrru eu hunain gyda'r bêl droed, neu ryw chwaraeaeth arall."

" O ! felly," meddai'r angel, " wyt ti'n meddwl y byddai'r Iesu, pe ar y ddaear heddiw, yn cymeradwyo gwledd a gloddest? Oni ddywedodd : ' Na ofelwch am eich bwyd, pa beth a fwytaoch, nac am eich corff, pa beth a wisgoch '."

Ni wyddwn pa beth i'w ddweyd yn awr, oherwydd caraf fy nghinio Nadolig yn ddirfawr, oblegid dyna'r unig ginio gŵr bonheddig a gaf yn ystod y flwyddyn. O'r diwedd dywedais fod yr ŵyl wedi ei sefydlu cyn i mi ddod i'r byd yma, ac nad fy mai i oedd gwledda a'r gloddesta.

" Onid ydwyt erioed wedi meddwl," meddai'r angel, " fod llais gennyt i gondemnio'r arferiad a chynnyg rhyw arferiad gwell ? "

" Wel," meddwn innau'n bur ddigalon, " nid wyf fi ond un, a phe bawn yn condemnio'r arferiad, ni wnawn ond tynnu llid a gwawd y wlad ar fy mhen."

" O " atebai'r angel, " os nad wyt yn feddiannol ar ysbryd y Nadolig, ni feddi fawr o ysbryd Crist. Pan welai Ef ryw arferiad anghydnaws â'i anian bur, byddai yn ei chondemnio ar unwaith, heb hidio a fyddai ganddo rywun i'w gefnogi neu beidio, ac ni pheidiodd a chyhuddo diffygion a ffaeleddau Ei genedl er i hynny gostio Iddo Ei fywyd.

" Wel ! " meddwn innau yn wylaidd, " yr wyf wedi rhoi llawer o roddion Nadolig, yr oedd Crist yn annog pawb i roddi yn hytrach na derbyn ".

" Ie," meddai'r angel, " ond i bwy wyt ti wedi cyfrannu, ai i'r tlodion, a'r anafusion, a'r gweddwon, a'r amddifaid, neu ynteu i'th gyfeillion, er mwyn cael rhywbeth yn gyfnewid ? "

Dyna fi yn fud erbyn hyn, ac yn dechreu sylweddoli mor bell oeddwn o safon Cristionogaeth, a phan yr oeddwn yn ceisio llunio rhyw ateb i'r angel, dyna gnoc fuddarol ar y drws. Dihunais gyda llam frawychus. Yr oedd yr eneth fechan wrth y drws yn disgwyl am rodd am ei chanu swynol.

I'r breuddwyd mae'r eneth yn ddyledus am y rhodd gafodd y noson honno, ac yr wyf finnau yn ddyledus iddo am yr ymborth meddyliol dderbyniais trwyddo.

A. Rees.

Nid oes gan benboethni ben i feddwl na chalon i deimlo. Nid yw yn symud ond mewn llid nac yn aros ond mewn distryw. Nid yw ei weddi ond melldith, a diafol yw ei dduw. Ysgrifenna ei ddeg gorchymyn yng ngwaed ei aberthau.—Daniel O'Conneli..

Urdd y Benywod.

Cwrdd Blynyddol.

Daeth cynulliad da ynghyd i Gapel Cribyn, dydd Sadwrn, Tachwedd y 23ain, pan y cynhaliwyd yno bumed cyfarfod blynyddol Urdd y Benywod yn Sir Aberteifi, a chafwyd hwyl a brwdfrydedd mawr yn y cwrdd.

Arweiniwyd yn y gwasanaeth defosiynol yn wir ddwys gan Miss Evans, Rose Cottage. Ar ôl hynny cynhaliwyd gwasanaeth cymundeb gan y Parch. D. Evans, ac erys ei eiriau teimladwy yn hir yn ein cof.

Llywyddwyd gan Mrs. J. E. Jones. Derbyniwyd adroddiadau calonogol oddiwrth y gwahanol ganghennau, gan yr ysgrifenyddion a'r trysoryddion, a chalonogol iawn oedd clywed i'r "Fellowship" fod yn llwyddiannus yn eu hymdrechion mewn dau achos.

Etholwyd y swyddogion canlynol am 1936. Llywydd: Miss Evans, Ffynnon-fair; Is-lywydd: Mrs. Davies, Faerdre, Llandysul; ail etholwyd yn Ysgrifenydd: Miss Williams, The Manse, Felinfach; ac yn Drysorydd: Mrs. Jenkins, Barclays Bank, Llanybyther.

Derbyniwyd gwahoddiad Alltyblaca i gynnal y Cwrdd Blynyddol nesaf yno ar yr 28 o Dachwedd, 1936.

Trefnwyd y byddai dwy aelod o bob cangen o hyn allan yn gyfrifol am y casgliad tuag at Drysorfa'r Mysyrwyr. Gwnawd hyn eisioes yn Alltyblaca, a gobeithir y bydd y canghennau eraill mor llwyddiannus ag y bu y chwiorydd yn Alltyblaca.

Cynygiwyd gan Miss Jones, Gellifaharen ein bod yn annog ein pobl ieuainc i ymarfer iaith lân, a rhoddwyd cefnogaeth gref i'r cynygiad gan Mrs. Park Davies; Mrs. Jones, Y Bryn; Mrs. T. O. Williams a Miss Evans, Ffynnon-fair.

Ar ôl gorffen â helyntion y canghennau cafwyd anerchiad gan y Parch. E. Rosalind Lee, M.A. Cyfeiriodd Miss Lee mewn modd teimladwy at farwolaeth Miss Brooke Herford, sylfaenydd Urdd y Benywod. Gwnaeth hi waith da yn ei dydd; mae llyfryn yn yr hwn y ceir hanes ei bywyd wedi profi yn boblogaidd iawn yn ein canghennau.

Pwysleisiodd Miss Lee yr angen am "y ffydd siriol" sydd gennym, a dywedodd mor angenrheidiol oedd i ni wneyd "Eglwys fyw" ohoni. Dylem brofi ein cariad ati drwy fynychu ein capeli yn fwy rheolaidd.

Yr oedd ymwelydd arall yn bresennol, sef Miss Jessie Sutcliffe, a chafwyd gair ganddi hithau.

Diolchwyd i Miss Lee am ei hanerchiad ar gynygiad Miss K. Jones, ac eiliwyd hi gan Mrs. Gwilym Evans.

Ar ôl y cyfarfod awd i'r ysgoldy, lle yr oedd te wedi ei baratoi, a phawb yn myned gartref wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

K.J.

Apel am iaith lan.

(Anerchiad draddodwyd gan Miss K. Jones).

"Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau chwi."—*Ephesiaid 4 : 29.*

Yr wyf yn falch i gael cyfle i ddwyn i'ch sylw destun sydd wedi bod yn agos at fy nghalon yn hir. Yr wyf yn cyfeirio at y cynnydd alaethus yn yr arferiad o ddefnyddio iaith aflan ymysg ein pobl ieuainc. Byddai yn dda gennyf feddwl y gallem ni, o feddwl yn ddwys am y peth a rhoddi ystyriaeth fanwl i'r broblem, i wneyd rhywbeth er lleihau y drwg. Yr wyf yn argyhoeddedig fod y gwaith yn un priodol i Urdd y Benywod. Mae yna alwad i ni i weithio. Gwnawn ninnau ateb yr alwad.

Clywir geiriau brwnt ar lawr chwarae yr ysgol, yn y bws, ar yr heol, ar glôs y fferm, yn rhy aml o lawer yn y cartref ei hun. Mae'r arferiad yn ymdaenu fel chwyn gwenwynol ; rhaid ei ddi-wreiddio a'i ddinystrio. Sut y gellir gwneyd hyn ? Mae amryw ffyrdd.

Dylem ni fenywod feddwl yn ddwys ar y mater, a cheisio gweled beth allwn ni wneyd o fewn ein cylch bach ein hunain. Gall cyngor doeth a thirion ar yr aelwyd fynd ymhell iawn, a dylem gofio mai'r peth pwysicaf ydyw nerth esiampl bersonol. Ni all ieuenctid ddynwared yr hyn ni glywant.

Ni all neb fod heb wybod am y drwg yma, ond efallai mai ychydig sydd yn sylweddoli mor niweidiol ydyw ei effaith ar gymeriad ieuenctid heddyw. Defnyddia ein pobl ieuainc eiriau brwnt yn rhydd, yn aml yn ddi-feddwl, efallai mewn rhyw wag-ymffrost ; ond unwaith y gellir eu gwneyd yn ymwybodol o'r arferiad drwg, dyna gam yn y cyfeiriad iawn. Gobeithio y daw y dydd yn fuan, pan y bydd ar ein bechgyn a'n merched ieuainc gywilydd i ddefnyddio iaith anweddus yn ein presenoldeb ac y cofiant na ddylid defnyddio enw Duw yn ofer.

Cofiaf am hen gyfeilles annwyl a chanddi forwyn oedd yn ddrwg iawn ei hiaith. Un bore bygythiodd ei mheistres y gwnai roddi dirwy o geiniog arni am bob gair drwg a ddefnyddiai. Cyn cinio yr oedd y forwyn wedi ei dirwyo i'r swm o bedwar swllt a dwy geiniog. Ni alwyd arni i dalu y ddirwy wrth gwrs, ond dysgodd wers y boreu hwnnw nad anghofiodd byth. Yr ydym yn aml yn gaeth i arferion sydd yn gofyn dysgyblaeth chwerw i'w gorchfygu.

Bydded ein iaith yn lân ac yn bur. O gydweithredu, ni allwn fethu gorchfygu y drwg hwn. Os y gallwn, drwy ein hymdrechion ni i ddylanwadu ar feddwl y cyhoedd, ni fydd ein hymdrechion yn ofer. Bydded i bob cangen o Urdd y Benywod, yn ei chymdogaeth ei hun, fod yn fyw i'r angen ac i'r anhawsderau, ac yn awyddus i lwyddo. Mae'r gwaith yn werth ei wneyd.

Hoffwn awgrymu i bob llywydd ddwyn y genadwri yma gartref i'w changen, a gwneyd ei goreu i argyhoeddi yr aelodau mor bwysig y mae'r broblem. Awgrymaf i bob gweinidog roddi un Sul i gefnogi y mudiad, ac i bob Ysgol Sul roddi ystyriaeth ddyladwy i'r mater.

Apeliaf hefyd at ddarllenwyr Yr Ymofynnydd, o ddyfod o honynt i gyffyrddiad â'r ieuainc, i wneyd eu goreu i lanhau eu llafar.

Apeliaf hefyd yn garedig at bobl mewn oed i wylio rhag yr arferiad llechwraidd yma, arferiad y maent yn aml yn hollol anymwybodol o hono. Adgofiaf hwynt ar yr un pryd o'r dylanwad nerthol hwnnw—dylanwad esiampl bersonol.—K. J.

Nodiadau Ymwelydd.

Yn yr adroddiad o Gwrdd Blynyddol yr Urdd gwelir fod Miss Jessie Sutcliffe yn bresennol. Danfonodd Miss Sutcliffe ychydig nodion ar ei hymweliad i "Lythyr Misol" yr Urdd. Wele rai o'i nodion :

"Gwnawd argraff fawr ar ymwelwyr gan y brwdfrydedd a ffynai ymysg aelodau canghennau yr Urdd yng Nghymru wledig. Yr oedd yn ddiwrnod oer iawn, ni wresogid y capel ond gan lamp olew fechan o dan gadair y Llywydd, ond yr oedd croesaw cynnes i'r dieithryn a chymdeithas hapus rhwng aelodau oeddent wedi ymgynnull o lawer o bentrefi gwasgaredig.

Yr oedd y gwasanaeth yn syml ac yn brydferth, a'r capel bychan tawel yn llawn. Yr oedd rhannau o'r gwasanaeth yn Gymraeg, ac ni ellid eu deall gan ymwelwyr ond teimlid urddas a phrydferthwch y geiriau a'r miwsig gan bawb.

Yng ngwasanaeth y Cymundeb yn arbennig, teimlid agosrwydd y gymdeithas. Yr oedd y cymundeb syml ei hun yr un ei ystyr i bawb.

Diddorol dros ben oedd clywed am y gwaith ardderchog wneir gan ganghennau bychain o weithwyr ewyllysgar. Calonogol iawn oedd clywed am bobl yn defnyddio eu hamdden mewn ymarfer crefftau o bob math. Soniodd un aelod am waith a wneid i gynorthwyo yr 'Abyssinian Red Cross'. Ceid argraff o rywbeth yn cael ei wneyd, nid gan nifer fawr o bobl, ond gan ychydig o bobl mewn difrif ac yn cydweithredu a'u gilydd. Yr oedd y cyfarfodydd yn galondid i unrhyw un duedda i ddigalonni oherwydd difaterwch canghennau mwy lluosog mewn mannau eraill. Yn yr eglwysi bychain hyn ym mhentrefi Cymru ceir tystiolaeth o'r ffydd fyw yr hon ydyw hanfod Cristionogaeth Undodaidd. Gresyn na chaem glywed rhagor am eglwysi bychain Cymru yn awr ac yn y man."—(Gol.).

Priodas.

Yng nghapel Pantydefaid, Rhagfyr 14, 1935, unwyd mewn glân briodas THOMAS DAVIES â MARIA DAVIES, merch Mr. a Mrs. Davies, Penlone. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Gweinidog ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. David Davies.

Marwgofion.

Tachwedd 27, yn 68 mlwydd oed, bu farw Mrs. WILLIAMS, Postgwyn, Llanbedr, wedi bod yn dihoeni'n hir. Merch Penlan ydoedd ac aelod ffyddlon o Frondeifi ar hyd ei hoes. Benyw dawel a siriol ydoedd, bob amser yn serchog a chyda gwên ar ei hwyneb. Yr oedd ganddi le cynnes i'r capel a'r enwad yn ei chalon a charai sôn amdanynt. Nid oedd wedi medru bod gyda ni ers tro. Yr oedd wedi'i chaethiwo ers blynyddoedd i'r gornel a'r gwely ond nid oedd yn grwgnach. Pan gai awr weddol ddiboen yr oedd yn llon, a phleser oedd bod yn ei chwmni. Ehedodd ymaith serch hynny heb roi ffarwel i neb, gyda'r wawr. Gadawodd ddwy ferch a dwy chwaer, heblaw perthynasau eraill i alaru ar ôl mam dyner a chariadus, chwaer siriol a chymydoges serchus. Claddwyd ym mynwent Brondeifi, y Gweinidog yn gwasanaethu gyda chynorthwy caredig Rheithor Llanwrda. Nerth a gaffo'r ddwy ferch i alaru'n felys ar ei hôl.

Daearwyd gweddillion marwol y diweddar SARAH THOMAS, Glanyrafon, Rhydowen, ym mynwent Pantydefaid, Rhagfyr 4 a hithau yn 81 oed. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y capel gan y Parch. Bryn Davies (A), ac ar lan y bedd gan Weinidog y lle. Dynes weithgar a charedig oedd yr ymadawedig ac wedi ennill parch yr holl gymdogaeth.

Rhagfyr 15, yn 78 mlwydd oed, ymhell o'i fro ym Môn, bu farw WILLIAM HEFIN WILLIAMS, Glaslwyn, Llanbedr, wedi clafychu ers tair neu bedair blynedd. Ni bu neb ffyddlonach nag ef. Cadwai gwrdd ac Ysgol Sul ac yr oedd yr Ysgol Gân yn agos at ei galon. Collasom ym marw Hefin ffrind i Frondeifi. Ni cheisiaf yma groniclo digwyddiadau'i fywyd. Fe gofia rhai i mi wneud flynyddoedd yn ôl ac yntau'n fyw. Heddiw cofiaf am y deigryn gloyw ar ei rudd yr adeg honno. Fe gymerai ragor o ofod nag a roid i mi i draethu'i hanes fel cerddor ac arweinydd côr diguro, fel arweinydd y gân a diacon, fel athraw yn yr Ysgol Sul ac fel y ffyddlonaf o'r ffyddloniaid yn ystod fy amser i ym Mrondeifi. Y mae'r hen gyfeillion yn mynd adref o un i un, ac wele Hefin wedi blaenu. Yr oedd wedi'n gadael ers tair blynedd ond bob tro y canem un o'i donau yr oedd rhyw hiraeth amdano yn ein llethu. Y mae weithian yn gorwedd yng ngro'r fynwent a garai mor fawr. Nid anghofir mohono ar fyr, a thra genir Llwyn, Maesgwyn, Dolydd Eang, Sant Dewi ac eraill bydd yr adgof amdano yn felys. Y mae'i le yn wâg, a'i lais yn eisiau a'i ffyddlondeb diball heb fod yn catching. Syrthiodd un o bileri Brondeifi pan gwympodd ef. Claddwyd ym mynwent Brondeifi. Ni fedrai huno yn unlle arall. Rhoes y gynulleidfa dabled o farmor gwyn ar ei fedd ac arno'r geiriau,—

"Er cof am ein hen Godwr Canu.
Eglwys Brondeifi."

Y mae wedi mynd, ond er wedi marw yn llefaru eto. Gadawodd i alaru'n unig o'i golli briod, a hithau bron yn ddall ym Môn, dwy ferch a mab heb law perthynasau eraill. "Dywed ei gynhaeaf, gweithiwr fu."

Ar y 17eg o Ragfyr, yn 62, Grandison Terrace, Battersea, bu farw SARAH WAKE, annwyl briod George Wake, yn 51 oed. Merch ydoedd i Mrs. Jones a'r diweddar Evan Jones, Tanlan, Cribyn ; a chwaer i'r Parch. Islan Jones, M.A., Hindley. Bu yn un o Ysbytai Llunden ym mis Awst dan driniaeth feddygol ; eithr ni bu'r driniaeth yn llwyddiant, dychwelodd i'w chartref, a bu ei chystudd yn un caled o hynny hyd y terfyn. Gweinyddwyd arni'n dyner gan ei nith, Miss Bessie Jones, Araul, gyda chynorthwy ei chwaer, Miss Rachel Jones. Yn ychwanegol at ei phriod, gadawodd mewn hiraeth dwys o'i cholli fam oedrannus —yn 91 oed—pedwar brawd, tair chwaer, a nifer luosog o berthynasau agos eraill. Cydymdeimlir yn fawr â hwynt yn eu hiraeth. Er iddi symud i Lunden yn gymharol ieuanc—tua 30ain o flynyddoedd yn ôl—eto cadwodd ei hadnabyddiaeth o'i chyfoedion trwy ei hymweliad blynyddol hi a'i phriod ; a da oedd gan bawb ei chroesawu. Dygpwyd ei chorff i orffwys yng Nghladdfa'r teulu ger capel Cribyn y dydd Gwener dilynol, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. Evans a T. Oswald Williams, M.A. ; yn y capel gwasanaethwyd gan y cyntaf, ar lan y bedd gan yr olaf.

Ar y 18fed o Ragfyr, yn 73 oed, bu farw DANIEL JENKINS, Waun Villa, ger Blaencwrt, plwyf Llanwenog, ar ôl ychydig ddyddiau o gystudd caled. Mab ydoedd i'r diweddar David a Mary Jenkins, Blaenwaun-ganol, plwyf Llanwnen, un o ddeuddeg o blant. O honynt nid oes yn fyw ond dau, sef, Jenkin Jenkins, Blaenwaun-uchaf, a Miss Rachel Jenkins, Waun Villa. Ar ôl marw ei dad yn agos i ddeugain mlynedd yn ôl, parhaodd ef a'i frodyr a'i chwiorydd i amaethu'r fferm. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, collodd ei frodyr a'i chwaer, un ar ôl y llall, fel nad oedd yn aros ond ef a'i chwaer a ennwyd eisioes. Gan fod ei iechyd yntau yn dirywio, penderfynodd ymddeol o'i ofalon, a throsglwyddodd y fferm i'w nith a'i phriod ; ac adeiladodd anedd-dy iddo ef a'i chwaer ar ddernyn o dir perthynol i'r fferm ; ac yno y treuliodd y gweddill o'i ddyddiau. Brodyr iddo oedd y diweddar Barchn. E. E. Jenkins, Walmsley, a J. E. Jenkins, Ainsworth. Fel amaethwr yr oedd yn adnabyddus dros ran eang o ganol y Sir, a delid ef mewn parch mawr gan bawb o'i gyd-amaethwyr a'i hadnabyddai. Ymaelododd yng Nghapelygroes pan oedd ieuanc iawn, a bu'n rhyfeddol o ffyddlon hyd yr analluogwyd ef gan waeledd iechyd ychydig flynyddoedd yn ôl. Olynodd ei dad fel ysgrifennydd, a bu yn y swydd hyd ei farw. Er yn gymharol ieuanc, hefyd, bu'n arweinydd y gân. Cyflawnodd ei ddyletswyddau fel ysgrifennydd er boddlonrwydd cyffredinol. Ac fel blaenor y gân, chwaraeodd ran amlwg ym mywyd y gynulleidfa am yn agos i ddeugain mlynedd. Yr oedd yn gerddor o wybodaeth eang a chywir o elfennau cerddoriaeth, o chwaeth gerddorol o radd uchel ; yr oedd " ei enaid i gyd yn y gân ", ac ni hoffai gwmni neb yn fwy nag eiddo ei gyd-gerddorion. Yn ychwanegol at y cymhwysterau a ennwyd, yr oedd iddo elfennau cymeriad mor ddymunol a enillai serch yr hoff o ganu o'r plentyn i'r oedrannus. Ymorchestai hyd y gallai i ochelyd tramgwyddo neb ; ac o ddigwyddai iddo fethu, gwnai ei oreu i symud achos y tramgwydd, ac adfer heddwch. Pan fu raid iddo ymneilltuo o'i swydd fel blaenor y gân, fe adawodd fwlch ar ei ôl anodd ei lanw. I bawb a'i hadnabyddai, teimlad o chwithtod a berwyd gan y newydd am ei farw. Y Sadwrn dilynol, hebryngwyd yr oll a oedd farwol o hono i orffwys yng nghladdfa'r teulu yng Nghapelygroes—y cynhebrwng yn anghyhoedd yn y tŷ, cyhoeddus yn y capel ; i'r capel daeth torf luosog ynghyd fel amlygiad o'u parch. Yn y tŷ cyn cychwyn, darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. D. Evans, Cwmiago ; a thraddododd anerchiad byr yn y capel. Yn y capel darllenwyd gan y Parch. S. E. Bowen, a gweddiwyd gan y Parch. L. Williams ; ar lan y bedd, gweddiwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Jones, Castell-Elwyn ; ac ar derfyn y gwasanaeth chwaraeodd y " Dead March ".

Nodion yr Eglwysi.

CEFN COED.—Mae'r Parch. J. Marles Thomas, M.A., Aberystwyth wedi derbyn galwad i'r Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed. Dymunwn lwyddiant mawr iddo.

CAPELYGROES.—Nos Lun y 30ain o Ragfyr caed y " Christmas Tree " arferol pryd y gwobrwywyd y plant am fynychu'r Ysgol Sul. Daeth nifer luosog ynghyd, a chaed cyfarfod dymunol.—Nos Wener y 3ydd o Ionawr, caed Eisteddfod lwyddiannus. Ar bob rhan o'r rhaglen bu cystadlu brwd ac o ansawdd uchel.

CAERDYDD.—Cynhelir gwasanaeth sefydlu y Parch. T. L. Jones yng Nghaerdydd nos Lun, Ionawr 20fed am 6 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch. E. R. Dennis, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr. Traddodir y siars i'r gweinidog gan y Parch. Henry Gow, M.A., D.D. (gynt Is-Brifathro Coleg Manceinion, Rhydychen). Rhoddir y siars i'r eglwys gan y Parch. Mortimer Rowe, B.A. (Ysgrifennydd Cyffredinol y General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches). Mae croeso cynnes i bawb.

BRONDEIFI.—Cynhaliodd Eglwys Brondeifi *sosial* nos Wener, Ionor 3, 1936, er llongyfarch a diolch i'r Cwmni Drama am iddynt chwarae y ddrama " Y Gwyntoedd Croes neu '68 " ar y nos wedi'r Nadolig a chael elw sylweddol i gyllid yr Eglwys. Yr oedd y boneddigesau wedi darparu'n helaeth heb arbed cost na thrafferth a throes y cwmni a'u cymheiriaid allan yn gryno. Talodd Mrs. Evans, Coedmor Hall, ddiolch i'r Gweinidog am ei antur, a diolchwyd yn gynnes iawn i'r eglwys ar ran y cwmni gan y Gweinidog.

ABERYSTWYTH.—Cawsom ni yma y pleser o roesawu pump o bobl ieuainc y gynulleidfa yn gyflawn aelodau nos Sul yr 8fed o Ragfyr, pryd yr estynnwyd iddynt ddeheulaw cymdeithas gan y gweinidog mewn gwasanaeth tarawiadol i'r amgylchiad. Mae pedwar ohonynt yn barod yn aelodau mewn gwahanol gapeli yng Ngheredigion, tra y mae y llall yn ferch i hen weinidog Undodaidd o Fanceinion sydd bellach er ys blynyddau wedi mynd oddiwrth ei waith at ei wobr. Bydded i'w huniad â'r eglwys yn ystod eu harosiad yma fod yn fendith iddynt hwy yn ogystal ag yn gaffaeliad iddi hithau !

PENODIAD I SWYDD BWYSIG.—Enw trydydd mab Mr. Evan Jones a'r diweddar Mrs. Jones, Aldergate, Felinfach, Ceredigion, yw John Jenkin Jones. Dechreuodd ei yrfa fel morwr. Teimlodd nad oedd gwaith morwr yn gydnaws a'i anian, ac arweiniwyd ef rywfodd i ddinas Montreal, Canada. Yn fuan cafodd waith yno. Cyn hir cafodd ei gyflogi gan Gwmni Masnachdy mawr ym Montreal. Esgynnodd yn y lle hwn hyd nes cyrhaedd y safle o fod yn Reolwr ar y Masnachdy. Yn ddiweddar y mae wedi ei benodi i fod yn Arolygwr y General Accident Assurance Company, Canada. Pan yn ymadael a'r Cwmni Masnachol dywedwyd wrtho y cawsai dderbyniad yn ôl i'w gwasanaeth os y byddai iddo ddymuno hynny rywbryd. Hyfrydwch mawr i ni yn Rhydygwin yw gwybod fod un o blant yr eglwys yn meddu ar gymeriad sydd â'r fath deithi ynddo ag sydd wedi ennill cymaint ymddiriedaeth. Mae ei frawd hynaf yng ngwasanaeth y Llythyrdy ers hir amser, ac yn fawr ei barch yn ei ardal. Mae brawd arall iddo yn Ariandy y Midland ym Maesteg, a brawd arall yn Fferyllydd a chanddo siop ei hun yn Llundain. Yr oedd ei unig chwaer yn *nurse* yn Brampton Hospital, Llundain, ond gorfu iddi ddod adref pan y gwaelodd iechyd ei mham. Pleser i feddwl a chalon pob un ag y mae ynddo ddymuniad da ydyw gweled teulu yn llwyddo fel y gwna y teulu hwn. Llwyddiant fyddo yn eu haros eto.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. **7/6** net (by post **8/-**). Leather bound, gilt edges, **10/6** (by post **11/-**). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price **1/-** (by post **1/1**). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price **1/-** (by post **1/1**). Cloth, **2/-** (by post **2/2**).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price **6d.** (by post **7d**).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. **1/-** each (by post **1/1**).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

OVER CONFIDENCE

You are CERTAIN your eyes are perfect because you can see distant objects plainly.

Don't be TOO confident. Your eyes are certainly helping you to see clearly for the time being, but may be only straining delicate muscles and nerves to the utmost.

This strain causes eyeaches, headaches, tired sore eyes and a host of other complaints.

Properly fitted glasses will give your eyes the help they need and prevent the failure which is bound to come if you neglect them.

Make an appointment with me now.

Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.